CYFARWYDDIAETH YR AMGYLCHEDD

GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL

POLISI MEWN PERTHYNAS Â GORFODAETH TROSEDDAU AMGYLCHEDDOL

Diweddariadau:	
Fersiwn: 1.2	**Dyddiad: 29 Gorffennaf 2010**
Adolygiad:	**Hydref 2012**

Gwasanaethau Amgylcheddol

Polisi Gorfodaeth Troseddau Amgylcheddol

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	3
Cymeradwyo	3
Sgôp	3
Gweld y Polisi	4
Egwyddorion Cyffredinol	4
Cwynion / Ceisiadau am Wasanaeth	4
Penderfynu ar weithredu	5
Cyswllt	11
Troseddau	11
Derbyn Ple o Euog	11
Ystyried safbwyntiau'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan y troseddau	12
Ail ddechrau erlyniad	12
Côd Erlynwyr y Goron	13
Gweithredu Polisi Gorfodaeth	13
Swyddogaeth Gwasanaethau Cyfreithiol y Sir	13
Cwynion yn erbyn Swyddogion	13
Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000	14

1. Cyflwyniad

1.1 Bydd y Gwasanaethau Amgylcheddol yn gweithredu'r polisi hwn er mwyn dod i benderfyniadau deg a chyson ynghylch cymryd camau gorfodaeth ar ol ymchwilio i droseddau o dipio anghyfreithlon, torri rheoliadau mewn perthynas â gwastraff masnachol a gadael cerbydau ar dir preifat a chyhoeddus yn y Sir. Mae'n rhaid cael gorfodaeth deg ac effeithiol i warchod iechyd, diogelwch a buddion trigolion, ymwelwyr a busnesau Sir Ddinbych. Hyd yn oed mewn achos bychan gall penderfyniad ynghylch gorfodi effeithio'n enfawr ar bawb â rhan; y cyhoedd yn gyffredinol, busnesau, dioddefwyr, tystion a diffynyddion.

1.2 Mae'r Polisi hefyd wedi'i baratoi i sicrhau fod pawb yn gwybod yr egwyddorion y bydd Swyddogion Trosedd Amgylcheddol yn y Gwasanaethau Amgylcheddol yn cadw atyn nhw wrth gynnal ymchwiliad a gweithgareddau gorfodaeth. Drwy gadw at egwyddorion cyson, mae pawb sydd â rhan yn y broses yn helpu i drin pawb yn deg ac yn effeithiol.

2. Cymeradwyo

2.1 Bu'r polisi hwn o flaen Pwyllgor Archwilio Amgylchedd y Cyngor Sir ar 14 Hydref 2010 a chafodd ei gymeradwyo. Bydd yn cael ei ail werthuso pob 2 flynedd.

3. Sgôp

3.1 Mae'r polisi'n berthnasol i weithgareddau gorfodaeth o dan ddeddfwriaeth sy'n cael ei gorfodi gan Swyddogion Troseddau Amgylcheddol yn y Gwasanaethau Amgylcheddol.

3.2 Mae gorfodaeth yng nghyd-destun y polisi hwn yn cynnwys y gweithredu ffurfiol neu anffurfiol a wneir wrth ymarfer, neu yn erbyn cefndir o, bwerau gorfodaeth statudol. Nid yw hynny'n golygu gweithredu gorfodaeth ffurfiol yn unig, megis erlyn; mae'n

cynnwys, er enghraifft, archwilio eiddo er wyn sicrhau y cydymffurfir â deddfau a rheoliadau, a chynnig cyngor priodol i gynorthwyo cydymffurfio.

4. Gweld y Polisi

4.1 Mae'r polisi ar gael ar safle we'r Cyngor ac ar ffurf copi caled yn Nepo Parc Cinmel, Bodelwyddan, Sir Ddinbych, Ll18 5UX. Gellir archebu copi drwy ffonio 01824 706100 (Cymraeg) neu 01824 706101 (English) neu ysgrifennu at y Gwasanaethau Amgylchedd, Adran Trosedd Amgylcheddol, Depo Parc Cinmel, Bodelwyddan, Sir Ddinbych, LL18 5UX.

4.2 Ar gais, bydd y polisi hwn ar gael ar dâp awdio, mewn Braille, teip bras neu mewn ieithoedd eraill.

5. Egwyddorion Cyffredinol

5.1 Mae pob achos yn unigryw ac mae'n rhaid ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun. Mae yna, fodd bynnag, egwyddorion cyffredinol ynghylch sut y dylid trin pob achos. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y polisi hwn ac yn y Concordat Gorfodaeth y mae'r Awdurdod wedi'i lofnodi.

5.2 Rhaid i Swyddogion Trosedd Amgylcheddol fod yn deg, yn annibynnol ac yn wrthrychol. Rhaid iddyn nhw beidio â gadael i unrhyw farn bersonol am faterion megis tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, credoau crefyddol, daliadau gwleidyddol neu dueddiad rhywiol y bobl o dan amheuaeth, dioddefwyr, tystion neu droseddwyr ddylanwadu ar eu penderfyniadau. Rhaid iddyn nhw beidio â chael eu heffeithio gan bwysau amhriodol neu ormodol o unrhyw ffynhonnell.

5.3 Mae'r Adran Trosedd Amgylcheddol y Gwasanaethau Amgylcheddol yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Rhaid i Swyddogion

defnyddio egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn unol â'r Ddeddf.

6. Cwynion

6.1 Hysbysir busnesau neu unigolion gynted â bo modd pan geir cwynion yn eu herbyn a allai arwain at orfodaeth, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn 6.2. isod. Hysbysir y busnesau neu'r unigolion hefyd o hynt y gwaith gorfodaeth, o sut y bwriedir gweithredu a hefyd pan geir unrhyw wybodaeth newydd.

6.2 Mewn amgylchiadau pan allai hysbysu rwystro gwaith gorfodaeth, ni hysbysir nes bod yr amgylchiadau hynny drosodd.

6.3 Byddwn yn cydymffurfio ag egwyddorion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a'r Ddeddf Gwarchod Data i warchod manylion adnabod y rhai a fydd yn cwyno.

7. Penderfynu ar weithredu

7.1 Mae dau fater i'w penderfynu. Y cyntaf yw pa lefel o orfodaeth y dylid ei ystyried. Yr ail yw, os mai'r penderfyniad cyntaf yw cymryd camau gorfodaeth ffurfiol, yna, a fyddai hynny'n hyfyw ac yn briodol. Mae dwy ran i benderfynu a yw gorfodaeth ffurfiol yn hyfyw a phriodol:

- ***Rhan 1: y prawf tystiolaeth***
- ***Rhan 2: y prawf diddordeb cyhoeddus***

Mae dwy ran i'r penderfyniad i gymryd camau gorfodaeth ffurfiol.

Y rhan gyntaf yw'r ***prawf tystiolaeth.*** Os nad yw'r achos yn bodloni'r prawf tystiolaeth, ni ddechreuir ar gamau gorfodaeth, waeth pa mor bwysig neu ddifrifol

yw'r achos. Efallai bydd yn rhaid ymchwilio ymhellach ac efallai y bydd Swyddogion yn cael eu cyfarwyddo i gynnal ymholiadau pellach.

Yr ail ran yw penderfynu a fyddai'r hyn y bwriedir ei wneud er **budd y cyhoedd**.

Ni fydd y Gwasanaethau Amgylcheddol yn dechrau nac yn parhau â chamau gorfodaeth ffurfiol oni bai bod yr achos wedi bodloni'r ddau brawf. Mae'r paragraffau canlynol yn dangos sut y mae'r polisi hwn yn berthnasol wrth ystyried erlyn:

'Bydd Swyddogion Troseddau Amgylcheddol, yn ôl y gofyn, yn ymgynghori gyda'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol i benderfynu a oes digon o dystiolaeth bod 'tebygolrwydd rhesymol o euogfarn' yn erbyn unrhyw ddiffinydd ar bob cyhuddiad. Os nad oes angen ymgynghori, bydd y Swyddogion Troseddau Amgylcheddol yn cymryd camau gorfodaeth ffurfiol ac yn paratoi'r dogfennau cyfreithiol angenrheidiol i'w cyflwyno i'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a chyfeirir at y dogfennau cyfreithiol hynny fel y ffeil achos. Bydd pob ffeil achos yn cael ei archwilio a'i gwrthlofnodi gan y Rheolwr Troseddau Amgylcheddol neu'r Uwch Swyddog Gwastraff (Gweithrediadau) yn y Gwasanaethau Amgylcheddol'.

'Mae tebygolrwydd rhesymol o euogfarn yn brawf gwrthrychol. Mae'n golygu y byddai rheithgor neu fainc ynadon, ar ôl eu cyfeirio'n briodol yn unol â'r gyfraith, yn debycach na pheidio o gael y diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig. Mae hwn yn brawf gwahanol i'r un mae'n rhaid i'r llysoedd troseddol eu hunan ei ddefnyddio'.

Wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, mae'n rhaid i'r Swyddogion Troseddau Amgylcheddol ystyried a ellir defnyddio'r dystiolaeth ac a yw'n ddibynadwy. Mae'n rhaid ystyried y budd cyhoeddus ym mhob achos ble mae digon o dystiolaeth resymol y ceir diffinydd yn euog. Eir ymlaen i erlyn fel rheol oni bai fod y ffactorau budd cyhoeddus yn amlwg yn cario llawer iawn mwy o bwysau na'r ffactorau o blaid erlyn. Er y gallai ffactorau budd cyhoeddus bwyso yn erbyn erlyn mewn achos penodol, yn aml dylid dal i erlyn a dylid cyflwyno'r ffactorau budd cyhoeddus i'r llys i'w hystyried wrth ddedfrydu.

Mae'n rhaid i'r Swyddogion Troseddau Amgylcheddol, y Rheolwyr Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol gydbwyso'r ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn yn ofalus ac yn deg. Fel arfer mae'r ffactorau budd cyhoeddus sy'n gallu effeithio ar benderfyniad i erlyn ai peidio yn dibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd neu ar amgylchiadau'r person a ddrwgdybir. Gall rhai ffactorau bwyso mwy o blaid erlyn ond gall rhai eraill awgrymu y byddai ffordd arall o weithredu'n fwy priodol.

Mae'r rhestr ganlynol yn rhai o ffactorau cyffredin budd cyhoeddus, dros ac yn erbyn erlyn. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Bydd y ffactorau perthnasol yn dibynnu ar y ffeithiau ym mhob achos unigol.

Rhai ffactorau budd cyhoeddus cyffredin o blaid erlyn.

Po fwyaf difrifol yw'r drosedd, y mwyaf tebygol yw y bydd angen erlyn er budd cyhoeddus. Mae'n debyg y bydd angen erlyniad os:

- *byddai'r ddedfryd yn un drom;*
- *yw'r dystiolaeth yn dangos fod y diffynnydd yn arweinydd neu'n drefnydd y drosedd;*
- *bod tystiolaeth fod y drosedd yn un yr oedd bwriad i'w chyflawni;*
- *bod dioddefwr y drosedd yn fregus, wedi cael ofn sylweddol neu wedi dioddef niwed neu aflonyddwch personol.*
- *bod y drosedd wedi'i hysgogi gan unrhyw ffurf o wahaniaethu yn erbyn tarddiad ethnig neu genedlaethol, gwahaniaethu ar sail rhyw, credoau crefyddol, sylwadau gwleidyddol neu dueddiad rhywiol y dioddefwr, neu fod yr un a ddrwgdybir wedi dangos gelyniaeth tuag at y dioddefwr yn seiliedig ar unrhyw un o'r nodweddion hynny;*
- *bod y diffynnydd wedi cael ei rybuddio neu ei ddedfrydu o'r blaen am droseddau perthnasol;*
- *mae sail i gredu fod y drosedd yn debygol o gael ei pharhau neu'i hail adrodd, er enghraifft, hanes o ymddygiad sy'n ail ddigwydd.*

Rhai ffactorau budd cyhoeddus cyffredin yn erbyn erlyn

Mae llai o debygrwydd y bydd angen erlyn os:

- *byddai'r llys yn debyg o osod cosb enwol;*
- *yw'r diffynnydd eisoes wedi'i d / ddedfryd a'i bod yn annhebyg y byddai euogfarn arall yn arwain at ddedfryd neu orchymyn ychwanegol, oni bai fod natur benodol y drosedd yn gofyn am erlyn;*
- *bod y drosedd wedi digwydd o ganlyniad i gamgymeriad neu gamddealltwriaeth gwirioneddol (rhaid cydbwyso'r ffactorau hynny yn erbyn difrifoldeb y drosedd);*
- *gellir disgrifio'r golled neu'r drosedd fel un fechan iawn a oedd o ganlyniad i un digwyddiad, yn enwedig os cododd o gamfarnu;*
- *bod oedi mawr rhwng dyddiad y drosedd a dyddiad yr achos, oni bai:*

fod y drosedd yn ddifrifol;
achoswyd yr oedi'n rhannol gan y diffynnydd;
dim ond yn ddiweddar y cafodd y drosedd ei darganfod; neu
bu'r ymchwiliad yn un hir oherwydd bod y drosedd yn un cymhleth;

- *byddai'r erlyniad yn debyg o amharu ar iechyd corfforol neu feddyliol y dioddefwr, gan gadw difrifoldeb y drosedd yn y cof bob amser;*
- *bod y diffynnydd yn hen,, neu ei fod ar adeg y drosedd, yn ddioddef o anhwylder iechyd arwyddocaol, yn gorfforol neu'n feddyliol, oni bai fod y drosedd yn un ddifrifol neu fod yna bosibilrwydd gwirioneddol y byddai'n cael ei hail adrodd.*

Nid mater o gyfrif faint o ffactorau sydd ar bob ochr yw penderfynu ar fudd cyhoeddus. Rhaid i Swyddogion ar y cyd â thîm cyfreithiol, benderfynu pa mor bwysig yw pob ffactor o dan amgylchiadau pob achos a symud ymlaen i wneud asesiad cyffredinol.

7.2 Pa lefel o gamau gorfodaeth y dylid eu cymryd.

Mae hynny'n gallu bod yn un neu fwy o'r canlynol.

- Erlyn / Rhybudd Cosb Benodol (os yn briodol neu'n berthnasol)
- Rhybudd Ffurfiol
- Rhybudd a chyngor ysgrifenedig
- Rhybudd llafar a chyngor
- Ail ymweld â'r eiddo
- Dim gweithredu

Erlyn:

Er mwyn erlyn, mae'n rhaid i'r Swyddogion Trosedd Amgylcheddol fod yn fodlon bod trosedd wedi'i chyflawni a bod digon o dystiolaeth ar gael sy'n rhoi tebygolrwydd rhesymol y byddai llys yn cael y diffinydd yn euog. Gellir ymdrin â throseddau o'r fath â Rhybuddion Cosb Penodol os yw hynny'n briodol a / neu'n dderbyniol ac os yw'r diffinydd yn cyfaddef y drosedd.

Rhybudd Ffurfiol:

Cedwir cofnod o Rybudd ar ffeil am 2 flynedd. Os yn briodol, anfonir copi o rybudd ffurfiol at yr Heddlu perthnasol a / neu at Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru). Os bydd y troseddwr yn cyflawni trosedd tebyg yn nes ymlaen, gallai'r rhybudd ffurfiol dylanwadu ar y penderfyniad i erlyn ai peidio. Os bydd troseddwr yn pledio'n euog, neu'n ei gael yn euog, o gyflawni trosedd tebyg arall yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod y bydd y rhybudd mewn grym, gellir cyfeirio at y rhybudd yn y llys. Os bydd troseddwr yn derbyn rhybudd ffurfiol, deuir i gytundeb ynghylch ad-dalu costau Cyngor Sir Ddinbych wrth waredu'r eitemau troseddol.

Os bydd person yn gwrthod derbyn rhybudd ffurfiol yna bydd yr Awdurdod yn symud ymlaen i erlyn a hysbysir y llys nad oedd y diffynnydd yn fodlon derbyn rhybudd ffurfiol.

Rhybudd Ysgrifenedig:

Ar gyfer rhai troseddau, efallai bydd troseddwyr yn derbyn llythyr cadarn ond cwrtais yn nodi'r troseddau'n glir, yn rhoi cyngor ar sut i'w hunioni ac yn cynnwys terfyn amser ar gyfer gwneud hynny. Gallai methu â chydymffurfio arwain at gamau gorfodaeth llymach. Rhaid i'r amser a ganiateir fod yn rhesymol, ond bydd yn rhaid cofio hefyd am iechyd a diogelwch a faint o niwsans a achosodd y drosedd.

Rhybudd Llafar / Gair o Gyngor:

Ar gyfer mân doriadau o'r gyfraith, rhoddir cyngor llafar gan nodi'r troseddau'n glir a rhoi gwybodaeth ynghylch sut i'w hunioni a chynnwys terfyn amser erbyn pryd y bydd yn rhaid gwneud hynny. Gall peidio â chydymffurfio olygu cymryd camau gorfodaeth llymach. Rhaid i'r amser a ganiateir fod yn rhesymol, ond bydd yn rhaid cofio hefyd am iechyd a diogelwch a faint o niwsans a achosodd y drosedd.

Ailymweld:

Efallai y bydd swyddogion yn ailymweld ag eiddo ar ôl cyflwyno rhybudd ffurfiol, rhybudd ysgrifenedig neu rybudd llafar a chyngor i sicrhau y cydymffurfiwyd â hynny. Efallai y dywedir y bydd ail ymweliad ar ôl terfyn amser a gytunir yn achos troseddau mân iawn. Bydd Swyddogion wedyn yn penderfynu a ydynt yn mynd i ail ymweld mewn gwirionedd, yn dibynnu ar iechyd, diogelwch, difrod amgylcheddol neu faint o niwsans a achosodd y drosedd ac a yw'n debyg bod y troseddwr wedi ymateb i'r cyngor llafar.

Dim Gweithredu Pellach:

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai na fydd y troseddau'n gofyn am weithredu pellach. Gallai hynny fod oherwydd y byddai'r costau i'r troseddwr wrth gydymffurfio, neu y byddai cost y gwaith gorfodi y byddai'n rhaid i'r Awdurdod ei wneud, yn gorbwyso effeithiau niweidiol y drosedd ar y gymuned. Gellir hefyd benderfynu peidio â gweithredu ymhellach pe na byddai camau gorfodweth ffurfiol yn addas o dan yr amgylchiadau, megis pan fo masnachwr wedi peidio â masnachu, neu fod y troseddwr yn hen ac yn fregus ac y gallai gweithredu ffurfiol fod yn niweidiol iawn iddo.

8. Cyswllt

8.1 Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng Rheolwyr y Gwasanaethau Amgylcheddol a Swyddogion Trosedd Amgylcheddol. Diben y cyfarfodydd hyn yw rhoi cyfle i Swyddogion drafod manylion yr ymchwiliadau y maen nhw'n gweithio / bwriadu gweithio arnyn nhw.

8.2 Os yw mater gorfodaeth yn effeithio ar Adrannau eraill y Cyngor, hysbysir Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a bydd yr wybodaeth yn cael ei anfon at Bennaeth yr Adran berthnasol gynted â bo modd.

8.3 Os yw mater gorfodaeth yn effeithio ar ardal ddaearyddol eang y tu hwnt i ffiniau'r Sir neu'n cynnwys gorfodaeth gan un neu ragor o awdurdodau lleol neu sefydliadau eraill; hysbysir yr holl awdurdodau a sefydliadau perthnasol ynghylch y mater ac ynghylch yr holl weithgaredd gorfodaeth sy'n gysylltiedig â hynny gynted â bo modd.

9. Troseddau

9.1 Gall Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol, Rheolwyr y Gwasanaethau Amgylcheddol neu Swyddogion Trosedd Amgylcheddol ofyn am gyngor gan Adran Gwasanaethau Cyfreithiol yr Awdurdod er mwyn cael eglurhad pellach ynghylch unrhyw droseddau a gyflawnir.

10. Derbyn Ple o Euog

10.1 Efallai bydd diffynydd eisiau pledio'n euog i rai, ond nid y cyfan, o'r cyhuddiadau. Neu, efallai y bydd diffinydd eisiau pledio'n euog i gyhuddiad gwahanol, o bosibl un llai difrifol, oherwydd mai dim ond i ran o'r drosedd y mae'n fodlon cyfaddef. Ni fydd Rheolwyr y Gwasanaethau Amgylcheddol yn derbyn ple'r diffynydd oni bai y bydd o'r farn y bydd y llys yn gallu gosod dedfryd sy'n cyd-fynd â

difrifoldeb y drosedd. Ni fydd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol yn derbyn ple o euog oherwydd y byddai hynny'n gyfleus.

10.2 Mewn achosion pan fo'r diffynydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiadau ond ar sail ffeithiau sy'n wahanol i achos yr erlyniad, a phan allai hynny effeithio'n arwyddocaol ar y ddedfryd, dylid gwahodd y llys i wrando ar y dystiolaeth er mwyn penderfynu ar yr hyn a digwyddodd ac yna dedfrydu ar sail hynny.

11. Ystyried safbwyntiau'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan y troseddau

11.1 Mae Adran Troseddau Amgylcheddol y Gwasanaethau Amgylcheddol yn cymryd camau gorfodaeth ar ran y cyhoedd yn gyffredinol ac nid er budd unrhyw unigolyn neu grŵp penodol. Fodd bynnag, wrth ystyried prawf budd cyhoeddus (gweler adran 7 uchod) rhoddir ystyriaeth i effaith y drosedd ar y rhai a gafodd eu heffeithio wrth benderfynu a ddilid cymryd camau gorfodaeth ai peidio a sut y dylid gwneud hynny, a thelir sylw hefyd i sylwadau'r rhai sydd wedi'u heffeithio.

11.2 Bydd y bobl a effeithiwyd gan y drosedd yn cael gwybod am unrhyw benderfyniad a fyddai'n gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i'r achos y mae ganddyn nhw ran ynddo.

12. Ail ddechrau erlyniad

12.1 Dylai pobl allu dibynnu ar benderfyniadau gorfodaeth a gymerir gan Swyddogion Trosedd Amgylcheddol. Fel arfer, os bydd yr un a amheuir neu'r diffynydd yn cael ei gynghori na fydd erlyniad, neu fod camau gorfodaeth wedi'u hatal, dyna fydd diwedd y mater ac ni fydd yr achos yn ail ddechrau. Ond weithiau, bydd rhesymau arbennig pam y bydd camau gorfodaeth yn ail ddechrau, yn enwedig os yw'r achos yn un difrifol. Mae'r rhesymau'n cynnwys:

- *achosion ble mae golwg o'r newydd ar y penderfyniad gwreiddiol yn dangos ei fod yn amlwg yn anghywir ac na ellir ei adael felly,*
- *achosion sy'n cael eu hatal fel y gellir casglu a pharatoi rhagor o dystiolaeth sy'n debyg o fod ar gael yn y dyfodol agos. Yn yr achosion hyn, hysbysir y diffynydd y gellir ail ddechrau eto ar y camau gorfodi.*
- *achosion sy'n cael eu hatal oherwydd diffyg tystiolaeth ond bod rhagor o dystiolaeth arwyddocaol yn cael ei ddarganfod yn ddiweddarach.*

Cymerir y penderfyniad i ail ddechrau ymchwilio neu erlyn gan Reolwyr y Gwasanaethau Amgylcheddol ar y cyd â'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol.

13. Côd Erlynwyr y Goron

13.1 Mae'r polisi hwn yn ystyried holl rannau perthnasol Côd Erlynwyr y Goron.

14. Gweithredu Polisi Gorfodaeth

14.1 Cynhelir archwiliadau mewnol yn achlysurol er mwyn sicrhau y gweithredir gorfodaeth yn unol â'r polisi hwn. Cynhelir yr archwiliadau hyn gan Reolwr y Tîm Troseddau Amgylcheddol a fydd yn adrodd yn ôl ar ei ganfyddiadau i'r Uwch Swyddog Gwastraff (Gweithrediadau).

14.2 Bydd cofnodion yr archwiliadau'n cael eu cadw gan Reolwr y Tîm Trosedd Amgylcheddol a bydd y rhain ar gael i'w harchwilio.

15. Swyddogaeth Gwasanaethau Cyfreithiol y Sir

15.1 Gall Rheolwyr y Gwasanaethau Amgylcheddol anfon copïau o'r adroddiadau i'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a gofyn am arweiniad a chyngor.

16. Cwynion yn erbyn Swyddogion

16.1 Dylai unrhyw un sydd eisiau cwyno ynghylch ymddygiad unrhyw Swyddog gysylltu â'r Swyddog Cwynion Corfforaethol a fydd yn ymchwilio i'r mater. Cyfeiriad y Swyddog Cwynion Corfforaethol yw Gwasanaethau Gofal Cwsmer, Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN neu dros y ffôn ar 01824 7-6169 neu drwy e-bost ar complaints@denbighshire.gov.uk.

16.2 Fel arall gall unrhyw un â chwyn gysylltu â Phennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a fydd yn trefnu ymchwiliad i'r mater.

17. Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

17.1 Mae gofynion y Ddeddf hon yn berthnasol i ymchwiliadau a gynhelir gan yr Adran hon. Mae'r paragraffau canlynol yn ymdrin â'r gweithdrefnau awdurdodi ar gyfer defnyddio gwyliadwriaeth gudd a defnyddio ffynonellau cudd wybodaeth ddynol (h.y. hysbyswyr). Rhaid gofyn a chael caniatâd o dan yr amgylchiadau a restrir isod.

Gwyliadwriaeth wedi'i Gyfarwyddo - diffinnir hyn fel gwyliadwriaeth gudd ond heb fod yn ymwthiol ac sy'n cael ei gynnal at ddibenion ymchwiliad neu gyrch penodol. Hefyd, bydd yr wyliadwriaeth yn cael ei gynnal mewn modd sy'n debygol o arwain at gael gwybodaeth breifat ynghylch person (ai'r wybodaeth a nodwyd yn benodol at ddibenion yr ymchwiliad ai peidio) ac, ac eithrio ymateb ar unwaith i ddigwyddiadau neu amgylchiadau, na fyddai oherwydd ei natur yn ymarferol gofyn am awdurdod i ymgymryd â'r wyliadwriaeth.

Gwyliadwriaeth Ymwthiol - diffinnir hyn fel gwyliadwriaeth gudd mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n digwydd ar unrhyw eiddo trigiannol neu mewn unrhyw gerbyd preifat pan fo unigolyn ar yr eiddo neu yn y cerbyd neu sy'n cael ei gynnal trwy ddyfais wylio.

17.2 **Ffynhonell Cudd Wybodaeth Ddynol -** person sy'n:

Sefydlu neu'n cynnal perthynas bersonol neu fel arall gyda pherson at ddiben cudd o hyrwyddo cynnal unrhyw beth sy'n disgyn o fewn (a) neu (b) isod

(a) mae person yn defnyddio cudd berthynas o'r fath i gael gwybodaeth neu i gael at unrhyw wybodaeth er mwyn rhoi'r wybodaeth i berson arall; neu

(b) mae person yn datgan gwybodaeth, yn gudd, sydd wedi'i gael trwy ddefnyddio perthynas o'r fath, neu o ganlyniad i fodolaeth perthynas o'r fath

17.3 Mae **gwyliadwriaeth yn gudd os** yw'n cael ei gynnal mewn modd sy'n bwriadu sicrhau nad yw'r bobl sy'n cael eu gwylio yn gwybod hynny nac yn gwybod y gallai ddigwydd.

17.4 **Mae diben yn gudd,** mewn perthynas â sefydlu neu gynnal perthynas personol neu fel arall, os yw'r perthynas yn cael ei chynnal mewn modd fel y ceisir sicrhau nad yw un o'r partïon yn y berthynas yn ymwybodol o'r diben.

17.5 Os bydd unrhyw swyddog eisiau defnyddio unrhyw ffurf o wyliadwriaeth gudd, mae'n rhaid cael caniatâd oddi wrth un o'r swyddogion canlynol:-

Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

17.6 Rhoddir awdurdod ar gyfer unrhyw ffurf o wyliadwriaeth yn ysgrifenedig a bydd y swyddog sy'n awdurdodi'r cymryd i ystyriaeth darpariaethau Adran 28 y Ddeddf ac yn benodol, bydd yn talu sylw at a yw'r wyliadwriaeth a awdurdodir yn gymesur â'r hyn y ceisir ei gyflawni trwy hynny.

17.7 Os bydd unrhyw swyddog eisiau defnyddio Ffynhonell Cudd Wybodaeth Ddynol, mae'n rhaid cael caniatâd un o'r swyddogion canlynol:-

Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

17.8 Rhoddir awdurdod ar gyfer defnyddio Ffynhonell Cudd Wybodaeth Ddynol yn ysgrifenedig a bydd y swyddog sy'n awdurdodi yn cymryd i ystyriaeth ddarpariaethau Adran 29 y Ddeddf a bydd yn talu sylw'n benodol i a yw'r wyliadwriaeth a awdurdodir yn gymesur â'r hyn y ceisir ei gyflawni trwy hynny.